# Symud Ymlaen o Hanes Uwch Gyfrannol i Hanes Safon Uwch

**Y trosglwyddo allweddol – canllawiau i fyfyrwyr gan Paul Ward**

Bydd nifer ohonoch sy'n darllen hwn newydd orffen eich cwrs Hanes Uwch Gyfrannol yn llwyddiannus, ac yn dechrau ar eich blwyddyn Safon Uwch. Hwyrach eich bod yn teimlo bod lefel y gwaith yn fwy heriol a'ch bod yn addasu'n dda, neu hwyrach eich bod yn teimlo ar goll gyda'r cynnwys ac yn ansicr beth i'w wneud. Bwriad yr erthygl hon yw awgrymu pethau i'ch helpu i ganolbwyntio ar ddisgwyliadau arholwyr Safon Uwch a, gobeithio, rhoi rhai syniadau i chi ar sut i lunio nodiadau da ac i baratoi'n effeithiol ar gyfer yr arholiad.

## Y sgiliau angenrheidiol

Mae'n bwysig fod gennych syniad eglur o'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer Safon Uwch. Y bwriad yw adeiladu ar y sgiliau hynny a gyflwynwyd ar y lefel Uwch Gyfrannol, ond bydd angen sgiliau gwahanol hefyd. Er bod dull pob bwrdd arholi o roi prawf ar y sgiliau newydd hyn yn amrywio, mae'n bosibl nodi galluoedd craidd pwysig y dylech fod yn ymwybodol ohonynt ac y dylech fod yn eu gwella.

Mae gallu ysgrifennu traethawd o fewn cyfnod amseredig yn beth hanfodol mewn arholiadau Safon Uwch. Ac wrth sôn am draethawd, dydw i ddim yn golygu traethu ffeithiau hanesyddol ni waeth beth fo gofynion y cwestiwn. Mae arholwyr yn chwilio am y gallu i ganolbwyntio ar union ofynion y cwestiwn, ac mae yna lawer mwy o bwyslais ar ddadansoddi hanesyddol o'i gymharu â'r arholiad Hanes Uwch Gyfrannol. Yn ogystal â hynny, bydd arholwyr yn disgwyl i chi fynd i'r afael â dadleuon ar ddehongliadau hanesyddol. Peth cyffredin iawn yw anwybyddu'r gofynion newydd hyn, a chaiff llawer o fyfyrwyr dipyn o syndod wrth dderbyn marc isel am draethawd neu gwestiwn ymarfer ar gyfer arholiad, er bod yr ateb i'w weld yn ateb da ar yr olwg gyntaf. Os nad yw traethawd yn cwrdd â gofynion y cynllun marcio, yna, gwaetha'r modd, bydd y marc yn adlewyrchu hynny.

Sgìl arall sy'n cael ei ddatblygu ar lefel Safon Uwch yw'r gallu i ystyried ffynonellau digon cymhleth eu natur a mynd i'r afael â'r dadleuon sy'n gynwysedig mewn dogfennau gwreiddiol ac eilaidd. Camgymeriad nifer o fyfyrwyr Safon Uwch yw ailddefnyddio sgiliau ffynhonnell TGAU/Uwch Gyfrannol sy'n canolbwyntio'n unig ar ba mor ddefnyddiol a dibynadwy yw ffynhonnell, a beth yw ei tharddiad. Er bod y pethau hyn o bwys i haneswyr, ar eu pennau eu hunain dydyn nhw ddim yn ddigonol ar gyfer Safon Uwch. Wrth reswm, mae angen bod yn ymwybodol o darddiad, er enghraifft, ond cyfeirio at y tarddiad fel rhan o ddadl ehangach sydd ei angen, ac nid yn unig yn y gobaith o ennill ychydig mwy o farciau. Unwaith eto, mae hyn yn dod yn ôl at y syniad o ganolbwyntio.

A'r sgiliau olaf fydd yn hollbwysig er mwyn llwyddo yn yr arholiad Hanes Safon Uwch yw sgiliau cyfannu a syntheseiddio. Mewn geiriau eraill, rhaid i chi allu cyfuno dadleuon sydd wedi'u casglu o ffynonellau â'ch gwybodaeth eich hun. Rhaid datblygu'r sgiliau hyn trwy gydol y flwyddyn Safon Uwch, ac unwaith y byddwch wedi'u meistroli, byddwch mewn safle addawol.

Efallai y bydd hyn i gyd yn eich digalonni nes cyrraedd pwynt o gredu, 'Alla i ddim gwneud hyn i gyd'. Ond dylech fagu hyder o gofio y bydd deall gofynion yr arholiad – a gallu canolbwyntio ar y gofynion hyn trwy'r flwyddyn – yn cynyddu'ch gobaith o lwyddo.

## Troi gwersi yn nodiadau effeithiol

Yn ystod y flwyddyn Uwch Gyfrannol, efallai y byddwch wedi sylweddoli eich bod yn debyg o ymateb mewn un o ddwy ffordd wrth eistedd a gwrando ar yr athro/athrawes yn siarad am bwnc arbennig. Naill ai byddwch yn gwneud eich gorau i ysgrifennu popeth neu, ar y llaw arall, fyddwch chi ddim yn ysgrifennu gair, gan fynd ar goll y naill ffordd a'r llall. Mae'r ddwy ffordd yn mynd i eithafion sydd i'w hosgoi.

Mae'n annhebygol iawn y byddai athro/athrawes yn disgwyl i chi ysgrifennu popeth a ddywedir, ond, fel rheol, mae gwersi'n dechrau gyda chrynodeb o'r bwriad canolog, cyn cyflwyno'r deunydd trwy lawer dull a modd. Gall rhai gwersi osod tasgau

ymchwilio a chyflwyno ar eich cyfer; gall rhai ddibynnu ar eglurhad yr athro/athrawes; a gall rhai ddefnyddio cyflwyniad *PowerPoint* neu fideo. Mae dau beth allweddol i'w cofio, sef: peidio â mynd i wersi yn disgwyl cael yr wybodaeth i gyd ar blât, ac yn ail, peidio â barnu effeithiolrwydd gwers yn ôl swm yr hyn a ysgrifennwyd gennych erbyn y diwedd. Cofiwch fod llyfr cwrs ac erthyglau gosod i'w cael o lyfrgell y coleg neu'r ysgol, a gellwch hefyd fynd ar y rhyngrwyd. O achos hynny, mae'n llawer gwell i chi ganolbwyntio ar gymryd rhan yn y wers a manteisio ar bob cyfle o fewn y wers honno, ac yna fynd ati ar ôl y wers i gwblhau'r gwaith darllen atodol.

Awgrymaf yn gryf eich bod yn paratoi eich nodiadau eich hun o lyfrau ac erthyglau er mwyn cael gwybodaeth wrth law a fydd yn gwneud synnwyr i chi pan ddaw'n amser adolygu. Hefyd, peidiwch byth â chopïo darnau sydd heb fod yn ddealladwy i chi. Yn y broses o lunio nodiadau, dylech fod yn darllen, yn deall, ac yna'n llunio crynodeb; ac felly, os na ellwch ddilyn y trywydd rhesymegol wrth lunio nodiadau, go brin y byddwch yn gallu gwneud hynny wrth adolygu.

## Ymateb amseredig

Byddwch wedi dysgu o weithio ar gyfer Hanes Uwch Gyfrannol bod yna bwyslais ar ysgrifennu traethawd o fewn cyfnod amseredig. Fel dywed yr hen ddihareb, 'Gorau arf arfer', a bydd eich athrawon yn rhoi cyfle i chi ymarfer y gallu hwn yn y dosbarth. Y peth pwysig yw peidio â gadael i'ch traethodau droi'n ddim mwy na thraethu ffeithiau hanesyddol. Mae'r arholwr yn edrych am ymateb seiliedig ar gynllun da sy'n ateb y cwestiwn fel y'i gosodwyd, ond, yn ychwanegol at hyn, mae angen i bob myfyriwr Hanes Safon Uwch geisio dod i gasgliadau ynghylch materion hanesyddol allweddol. Mae hwn yn sgìl y bydd angen i chi ei ymarfer a'i wella wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Mae'n bwysig dros ben eich bod yn mynd i'r arfer o gynllunio'ch ymateb amseredig cyn ysgrifennu'r traethawd. Erbyn i'r tymor arholiadau gyrraedd, dylai fod yn ail natur i chi. Wrth reswm, ellwch chi ddim ysgrifennu popeth o fewn yr amser fydd gennych, ond mae'n rhaid i chi allu llunio dadl sy'n ateb y cwestiwn, ac mae'n rhaid i chi gefnogi'ch dadansoddiad â gwybodaeth berthnasol. Y pwynt pwysig yma yw lefel y dadansoddi a fydd yn amlwg i'r arholwr yn eich ateb, a sut y byddwch yn cysylltu hyn yn eglur â'r cwestiwn a osodwyd.

Un ffordd o wirio'ch ymateb amseredig yw edrych ar bob paragraff yn ei dro. Tuag at ddiwedd pob un dylai fod yna gyfeiriad penodol at y cwestiwn. Pa mor dda bynnag fyddwch am draethu ffaith hanesyddol, wnaiff hyn ddim argraff ar yr arholwr os yw'n amherthnasol neu'n ddiffygiol o ran y dadansoddi. Mae hyn o'r pwys mwyaf oherwydd bod arholwyr Safon Uwch yn disgwyl i chi arddangos sgiliau hanesyddol penodol, a dim ond un o'r sgiliau hynny yw cofio gwybodaeth.

Mae'n bwysig peidio â mynd i banig dan bwysau amser oherwydd gall hyn weithiau arwain at ysgrifennu gwael. Byddwn i'n awgrymu treulio pum munud ar ddechrau'r arholiad yn meddwl yn ofalus ac yn llunio cynllun sy'n cynnwys y meysydd gwybodaeth perthnasol i'r cwestiwn.

Mae'n hollbwysig nad yw eich ateb yn gorffen yn rhy swta; yn hytrach, dylai'r arholwr allu dyfalu'n rhwydd beth fydd eich diweddglo. Rhaid i'r diweddglo osgoi ailadrodd: dyma lle mae angen i chi ymarfer doethineb a thalu sylw llwyr i holl agweddau'r cwestiwn. Ceisiwch gyfeirio'n ôl at y cwestiwn a llunio barn yn seiliedig ar y prif bwyntiau a fynegwyd gennych eisoes. Cofiwch na ddylai'r diweddglo ailadrodd unrhyw ddeunydd ffeithiol sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y traethawd.

## Adolygu i bwrpas

Mae'r gwaith o adolygu yn hollbwysig a dylai ddechrau'n gynnar. Mae yna lawer o gynnwys yn yr unedau Safon Uwch, felly bydd yn anodd adolygu'r cyfan ar y funud olaf. Y peth allweddol i'w gofio yw bod yn rhaid i'ch amserlen ganiatáu amser i adolygu'r sgiliau hynny sy'n bwysig ar gyfer arholiad Safon Uwch. Heb ymwybyddiaeth o'r modd mae'r wybodaeth am y pwnc yn cyd-fynd â gofynion ehangach y cwrs, fydd adolygu'r deunydd o fawr ddim gwerth.

Bydd arnoch angen copïau o hen bapurau arholiad, ac fe ddylech roi cynnig ar y cwestiynau ar ôl adolygu rhan benodol o wybodaeth ar bwnc arbennig. Credaf hefyd ei bod yn bwysig eich bod yn teimlo'n hyderus ynghylch y cynlluniau marcio a'r targedau asesu sy'n cael eu defnyddio gan arholwyr wrth farcio'ch gwaith. (Mae'r manylebau hyn yn bur sych i'w darllen, ond gallech fod ar eich colled o'u hanwybyddu!) Bydd treulio amser ar y pethau hyn lawn mor werthfawr â threulio amser ar adolygu cynnwys y cwrs. Y pwynt rwy'n ceisio ei bwysleisio yma yw bod angen i chi fod yn ymwybodol o'r cynnwys ac o'r sgiliau.

Rhaid i chi hefyd ymarfer edrych ar ffynonellau a dewis a dethol y dadleuon a'r barnau sydd ynddynt. Dyma un o sgiliau pwysicaf Safon Uwch, lle mae disgwyl i'r deunydd o ffynonellau ddarparu'r deunydd crai ar gyfer ymatebion mwy estynedig. Cyhyd â'ch bod yn treulio amser yn edrych ar amrywiaeth o ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd wrth adolygu, ddylai eu hwynebu yn ystod arholiad ddim eich digalonni.

Felly, yn fyr, dylai'r gwaith adolygu ganolbwyntio ar y cynnwys ac ar y sgiliau hanesyddol, ac ni ddylai esgeuluso ymarfer ar ffynonellau. Ceisiwch weld ble mae'ch mannau gwan ac wedyn gellwch benderfynu faint o amser ddylech ei dreulio ar y pwnc neu'r sgìl neilltuol hwnnw.

Cymerwch gysur o'r ffaith ei bod yn debygol eich bod eisoes wedi profi'ch gallu i gofio ffeithiau cyn cyrraedd y safon hon. Ar gyfer arholiad Hanes Safon Uwch, rhaid i ofynion ehangach dadansoddi hanesyddol a'r gallu i lunio barn fod yn gefn i sgìl cofio ffeithiau.

Bellach, mae Paul Ward, a fu gynt yn ddarlithydd yng Ngholeg Truro, yn Bennaeth Hanes Ysgol Breifat Heritage, Ynys Cyprus.

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today o *History Review*, Medi 2006: *Moving Up from AS to A2 History*, Paul Ward.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

**Golygydd**: Gwenda Lloyd Wallace
**Dylunydd**: Richard Huw Pritchard
**Cyfieithydd**: H. Eurgain Rowlands

Diolch i Robin Evans, Nia Goode, Carole Bryan James a Geraint Jones (y monitoriaid) am eu harweiniad gwerthfawr.